**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TYDFIL**

**TRWYDDED GYRRWR LLOGI PREIFAT**

**ATODLEN AMODAU**

## 1. Gyrwyr llogi preifat: Amodau'r Drwydded:

**Bydd y Trwyddedai yn cadw at ac / neu yn gweithredu'r amodau canlynol:**

(1) (i) Ni fydd y trwyddedai yn aseinio nac mewn unrhyw ffordd yn rhannu budd o'r drwydded, sydd yn bersonol ac yn benodol i'r trwyddedai, rhaid i'r drwydded gael ei hanfon at Weithredwr y Cerbyd Llogi Preifat sy'n cyflogi'r gyrrwr a chaiff copi ei gadw gan y gweithredwr tra bo'r cyfryw yrrwr yn parhau yn ei gyflogaeth / ei chyflogaeth.

(ii) Caiff y trwyddedai ei hysbysu y gall unrhyw Gerbyd Llogi Preifat y gallai ei yrru gael ei weithredu gan Weithredwr y Cerbyd Llogi Preifat a drwyddedir gan y Cyngor hwn.

(iii) Caiff dau fathodyn eu cyflwyno i'r trwyddedai oddi wrth y Cyngor. Bydd y trwyddedai, wrth yrru Cerbyd Llogi Preifat, yn gwisgo bathodyn o'r fath mewn man amlwg fel ei fod yn weledol amlwg a phlaen a bydd y trwyddedai hefyd yn arddangos yn amlwg ar y dashfwrdd bathodyn o'r fath sydd i'w weld yn glir gan deithwyr a bydd bathodynnau o'r fath yn arddangos y rhif cyfatebol a aseiniwyd i'r trwyddedai yn ôl y cofnod yn y gofrestr a gedwir gan y Cyngor i'r perwyl hwnnw. Rhai dychwelyd y bathodynnau i'r Cyngor ar unwaith ar ôl i'r gyrrwr ddarfod cael ei drwyddedu gan y Cyngor.

(iv) Rhaid i'r gyrrwr, ymhen 7 niwrnod, roi gwybod yn ysgrifenedig am unrhyw drosedd neu euogfarn neu hysbysiad cosb benodedig a gyflwynwyd iddo / iddi i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid.

(2) Bydd bathodynnau'r gyrrwr yn parhau i fod yn eiddo i'r Cyngor ac os bydd trwydded y gyrrwr yn cael ei atal neu ei diddymu neu os yw'r Cyngor yn gwrthod adnewyddu trwydded yrru, caiff y cyfryw fathodyn ei ddychwelyd i'r Cyngor gan y trwyddedai ymhen saith niwrnod o hysbysiad oddi wrth Gyfarwyddwr Corfforaethol Gweddnewid a Lle sy'n gofyn i'r trwyddedai wneud hynny.

(3) Drwy gydol cyfnod ei drwydded, rhaid i'r trwyddedai fod yn ddeiliad trwydded yrru ddilys o dan Ddeddf Traffig Ffordd 1988. Os caiff ef/ hi ei dd/diarddel rhag bod yn ddeiliad trwydded yrru am ba bynnag reswm, rhaid iddo ef/hi hysbysu'r Cyngor ar unwaith a dychwelyd y bathodyn a'r drwydded.

(4) Y mae'n amod o'r drwydded y bydd gyrrwr yn hysbysu Swyddog Trwyddedu'r Cyngor ynghylch unrhyw newid neu ddatblygiad meddygol a allai gael effaith arno / arni yn perfformio ei ddyletswyddau/ ei dyletswyddau fel gyrrwr a drwyddedir gan y Cyngor ar unwaith neu ymhen 14 diwrnod o ddyfod yn ymwybodol o hynny. Deil y Cyngor ar yr hawl i ofyn i drwyddedai cyfredol gyflwyno tystiolaeth feddygol o ran parhad yn ei ffitrwydd i yrru yn ystod cyfnod y drwydded. Caiff tystiolaeth feddygol o'r fath ei chynhyrchu gan y trwyddedai i'r Cyngor ymhen saith niwrnod ar ôl cais gan yr Awdurdod Trwyddedu.

(5) Bydd y trwyddedai yn hysbysu'r Cyngor, yn ysgrifenedig, ynghylch unrhyw newid cyfeiriad (yn cynnwys cod post) yn ystod cyfnod y drwydded, ymhen saith niwrnod ar ôl i newid o'r fath ddigwydd.

(6) Bydd y trwyddedai, yn ôl cais unrhyw Swyddog Awdurdodedig o'r Cyngor neu unrhyw Gwnstabl, yn cynhyrchu ar gyfer archwiliad ei drwydded yrru a/neu fathodynnau, un ai ar unwaith neu cyn diwedd pum diwrnod gan ddechrau gyda'r dydd yn dilyn dyddiad y cais:-

(i) Yn achos cais gan Swyddog Awdurdodedig i Gyfarwyddwr Corfforaethol Gweddnewid a Lle, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN.

(ii) Yn achos cais oddi wrth Heddwas mewn unrhyw Orsaf Heddlu oddi fewn i ardal y Cyngor ac a enwebwyd gan y Cwnstabl pan gafodd y cais ei wneud.

(7) Ni fydd y trwyddedai yn peri nad yn goddef nac yn caniatáu bod Cerbyd Llogi Preifat yn cludo mwy mewn nifer o bersonau na'r nifer o bersonau a benodir yn y drwydded a gyflwynir a'i harddangos ar blât trwydded y Cerbyd Llogi Preifat a gyflwynwyd gan y Cyngor mewn perthynas â'r cerbyd hwnnw.

(8) Bydd gyrrwr cerbyd trwyddedig yn ymddwyn mewn modd cwrtais a threfnus a bydd yn cymryd pob gofal rhesymol i sicrhau diogelwch unrhyw berson a gaiff ei gludo neu sy'n mynd i mewn i'r cerbyd neu allan ohono.

(9) Bydd gyrrwr cerbyd trwyddedig pan fydd yn cael ei logi i yrru i unrhyw gyrchfan penodol, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y llogwr, yn mynd at y cyrchfan hwnnw ar hyd y daith fyrraf posibl.

(10) Bydd gyrrwr cerbyd trwyddedig sydd wedi cael ei logi i weinyddu ar amser ac mewn lle priodol, oni bai ei fod wedi ei oedi neu ei atal gan ryw achos boddhaol:

(i) yn brydlon wrth gyrraedd ar yr amser ac yn y lle penodol;

(ii) ar ôl cais gan y llogwr:-

(a) cludo dogn rhesymol o fagiau;

(b) darparu cymorth rhesymol wrth lwytho a dadlwytho yn cynnwys cymorth cario oddi wrth a thuag at fynediad unrhyw dŷ neu fan arall ble y bydd yn casglu neu'n gollwng ei deithiwr;

(iii) sicrhau fod unrhyw fagiau a gaiff eu cario yn ddiogel ac nad ydynt yn cael eu cario yn y fath fodd a fyddai'n peri rhwystr i ddrysau teithwyr,

(iv) Yn syth ar ôl i unrhyw logi ddod i ben, bydd y gyrrwr yn chwilio drwy'r cerbyd yn ofalus am unrhyw eiddo a allai fod wedi cael ei adael ynddo ar ddamwain, ac os bydd eiddo o'r fath yn cael ei ddarganfod, gymryd y cyfryw eiddo ymhen 48 awr, os nad yw wedi ei hawlio yn gynt gan, neu ar ran y perchennog, at Gyfarwyddwr Corfforaethol Gweddnewid a Lle, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN neu ar adegau o'r fath pan fydd y swyddfa honno ar gau, i'r Orsaf Heddlu agosaf.

(11) Bydd gyrrwr cerbyd trwyddedig yn amodol ar ddarpariaethau S.37 Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a rheoliadau cysylltiedig (sy'n gosod dyletswydd ar yrwyr Cerbyd Llogi Preifat i gludo cŵn tywys teithwyr anabl am ddim rhagor o gost):

(a) Peidio â gwrthod cludo ci cymorth cofrestredig sy'n gwmni i berson anabl. Bydd cludo ci nad yw'n gi cymorth ac unrhyw anifail anwes neu anifail arail yn ôl disgresiwn y gyrrwr.

(b) Darparu tystiolaeth feddygol am unrhyw gyflwr meddygol sy'n golygu ei fod yn anabl cludo unrhyw gi tywys neu gi cymorth o'r fath i'r Swyddog Trwyddedu er mwyn galluogi'r gyrrwr i hawlio cael ei eithrio o gymal 14 uchod.

(12) Rhaid i yrrwr cerbyd trwyddedig a gafodd trwydded eithrio wedi ei chyflwyno iddo, arddangos yr hysbysiad eithrio mewn cerbyd drwy ei osod yn y cerbyd mewn man amlwg (er enghraifft, ar y dashfwrdd).

(13) Os bydd gyrrwr Cerbyd Llogi Preifat yn ffugio neu'n gwneud datganiad ffug mewn perthynas â thystysgrif eithrio, bydd ef / hi wedi torri amod ei drwydded / ei thrwydded a gallai hynny beri i'w drwydded / ei thrwydded i fod yn atebol am ataliad neu ddiddymiad.

(14) Caiff Trwyddedai Cerbydau Llogi Preifat eu hatgoffa mai dim ond cymryd teithwyr sydd wedi gwneud archeb am eu taith ymlaen llaw drwy weithredwr trwyddedig y maen nhw'n cael ei wneud ac na fydd yn gwneud hynny wrth yrru neu pan fydd yn gyfrifol am Gerbyd Llogi Preifat:-

(a) ceisio denu cwsmeriaid neu gymell ar y ffordd neu fan cyhoeddus arall unrhyw berson i logi neu i gael ei gludo ar log mewn unrhyw Gerbyd Llogi Preifat; neu

(b) peri neu achosi i unrhyw berson arall geisio denu cwsmeriaid neu gymell ar y ffordd neu fan cyhoeddus arall i unrhyw berson logi neu gael ei gludo mewn unrhyw Gerbyd Llogi Preifat: Nid yw gyrwyr yn cael ymgymryd â llogi yn yr un modd â gyrwyr Cerbydau Hacni a byddant yn euog o drosedd os byddant yn gwneud hynny.

(c) cynnig llogi'r cerbyd hwnnw ar unwaith tra bo'r Trwyddedai neu'r cerbyd hwnnw ar y ffordd neu mewn man cyhoeddus arall; neu

(d) derbyn cynnig i logi'r cerbyd ar unwaith tra bo'r Trwyddedai neu'r cerbyd hwnnw ar y ffordd neu fan cyhoeddus arall ac eithrio ble mae cynnig o'r fath wedi ei gyfathrebu yn gyntaf i'r Trwyddedai drwy ffôn neu drwy offer ar gyfer telegraffi diwifr a osodwyd yn y cerbyd hwnnw heb i'r Trwyddedau achosi'r cynnig mewn unrhyw ffordd.

At ddibenion yr amod uchod:

Mae "ffordd" yn golygu priffordd neu unrhyw ffordd arall y mae gan y cyhoedd fynediad ato yn cynnwys pontydd y mae ffordd yn pasio drostynt, a gorsafoedd rheilffordd neu leoliadau rheilffordd.

(15) Y mae'n amod o'r drwydded y bydd gyrrwr yn rhoi gwybod i Swyddog Trwyddedu'r Cyngor am unrhyw newid meddygol neu ddatblygiad a allai gael effaith arno / arni yn perfformio ei ddyletswyddau / ei dyletswyddau fel gyrrwr trwyddedig gan y Cyngor ar unwaith neu ymhen 14 diwrnod ar ôl dyfod yn ymwybodol o hynny.

(16) Caiff ei ystyried fod unrhyw rybudd gofynnol i'w wasanaethu gan y Cyngor o dan y Drwydded hon neu o dan unrhyw un o ddarpariaethau Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a phob deddfwriaeth berthnasol arall, wedi ei wasanaethu'n llwyr os yw'n cael ei wasanaethu'n bersonol neu ei anfon drwy bost a dalwyd eisoes i, neu ei adael yng nghyfeiriad olaf gwybyddus deiliad y Drwydded.

(17) Bydd y gyrrwr yn gyfarwydd â gofynion ac amodau'r Cyngor ar gyfer Gyrwyr llogi preifat.

(18) <u>Ataliad, Diddymiad neu Wrthodiad Adnewyddu Trwydded</u>

(1) Mae'n bosibl i'r Cyngor atal, ddiddymu neu beidio ag adnewyddu'r Drwydded os, ers i'r Drwydded gael ei chyflwyno:-

(a) yw'r gyrrwr wedi ei gael yn euog o drosedd neu fel arall yn methu â chydsynio ag unrhyw un o ddarpariaethau Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 neu Ran II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

(b) mae'r gyrrwr wedi ei euogfarnu am drosedd yn ymwneud ag anonestrwydd, anweddustra neu drais;

(c) bod unrhyw achos arall rhesymol yn bodoli a allai gyfiawnhau ataliad neu ddiddymiad.

## 19 TROSEDDAU, TORCYFRAITH A CHOSBAU

BYDD UNRHYW YRRWR CERBYD LLOGI PREIFAT TRWYDDEDIG SYDD:

(a) yn fwriadol rwystro Swyddog Awdurdodedig neu Heddwas sy'n gweithredu o ganlyniad i Ran II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 neu Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd 1874; neu

(b) heb reswm rhesymol yn methu â chydsynio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r amodau hyn neu ag unrhyw un o'r gofynion a wnaed yn gywir iddo gan swyddog neu heddwas o'r fath, o ganlyniad i Ran II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 neu Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd 1874; neu

(c) heb reswm rhesymol yn methu â rhoi i swyddog neu heddwas o'r fath unrhyw gymorth neu wybodaeth arall y gallai fod yn ofynnol ganddo ar gyfer perfformio swyddogaethau o ganlyniad i Ran II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 neu Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd 1874.

Yn euog o drosedd, yn bosibl o gael ei erlyn ac yn atebol i gael dirwy.

Bydd yr amodau hyn yn gymwys i Yrwyr Llogi Preifat a drwyddedir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Deil y Cyngor ar yr hawl i addasu unrhyw un o ofynion yr amodau hyn yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt.

Deil y Cyngor ar yr hawl i ddiwygio neu ychwanegu at unrhyw un o'r amodau blaenorol a chaiff hysbysiad o hynny ei gyflwyno i bob un sy'n dal trwydded.